Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 21 Tachwedd 2018

Amser: 09.27 - 12.19

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5169

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	John Griffiths AC (Cadeirydd) Jayne Bryant AC Mark Isherwood AC Jenny Rathbone AC Leanne Wood AC
Tystion:	Debbie Wilcox Daniel Hurford, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Paul Egan, Un Llais Cymru Jessica Blair, Sefydliad Materion Cymreig Siân Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Staff y Pwyllgor:	Naomi Stocks (Clerc) Catherine Hunt (Ail Glerc) Chloe Davies (Dirprwy Glerc) Osian Bowyer (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Siân Gwenllian AC, Jack Sargeant AC a Gareth Bennett AC.

2 Ymchwiliad i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol: sesiwn dystiolaeth 1

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Arweinydd Casnewydd
- Daniel Hurford, Pennaeth Polisi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Siân Williams, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Paul Egan, Dirprwy Brif Weithredwr, Un Llais Cymru

3 Ymchwiliad i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol: sesiwn dystiolaeth 2

3.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Jessica Blair, Cyfarwyddwr, ERS Cymru

4 Papurau i'w nodi

4.1 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20

4.1a Nododd y Pwyllgor y datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20.

4.2 Ymchwiliad i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol – dadansoddiad o'r arolwg

4.2a Nododd y Pwyllgor y dadansoddiad o'r arolwg ar gyfer yr ymchwiliad i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1. Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

6 Ymchwiliad i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol: trafod y dystiolaeth a gafwyd

6.1. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2 a 3.

7 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20: trafod yr adroddiadau drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20.